# BENTHYCA. TRWSIO. AILADRODD ETO.

Galwad genedlaethol i weithredu fel mai Cymru sydd orau yn y byd am fenthyca a thrwsio

CAFFI TRWSIO CYMRU REPAIR CAFE WALES

BENTHYG CYMRU

# BORROW. REPAIR. REPEAT.

A national call to action to make Wales the best in the world at borrowing and repair

CAFFI TRWSIO CYMRU REPAIR CAFE WALES

BENTHYG CYMRU

## RYDYN NI AM GREU CYMRU LLE MAE BENTHYCA A THRWSIO YN RHAN O FYWYD BOB DYDD, GAN HELPU POBL I WASTRAFFU LLAI, ARBED ARIAN AC ADEILADU CYMUNEDAU CRYFACH

Mae hyn yn rhan hollbwysig o'n seilwaith cymdeithasol - nid rhyw ychwanegiad 'braf i'w gael', ac mae ymgyrch benthyca a thrwsio Cymru yn dangos yn barod bod y modelau hyn yn gweithio. Mae Benthyg Cymru a Caffi Trwsio Cymru yn gweithio ar draws y wlad i wneud benthyca a thrwsio yn rhan o fywyd bob dydd. Mae Awdurdodau Lleol ar draws Cymru yn ymddiried yn y ddau sefydliad fel partneriaid cyflawni, ac yn gweithio gyda nhw i gynnig atebion trwsio ac ailddefnyddio gyda chefnogaeth Llywodraeth Cymru.






## WE WANT A WALES WHERE BORROWING AND REPAIRING ARE PART OF EVERYDAY LIFE, HELPING PEOPLE CUT WASTE, SAVE MONEY, AND BUILD STRONGER COMMUNITIES

These aren't just nice-to-haves, they are essential social infrastructure and Wales' borrowing and repair movement is already proving that these models work. Benthyg Cymru and Repair Cafe Wales work across Wales to make borrowing and repair part of everyday life. Both organisations are trusted delivery partners for Local Authorities across Wales, working collaboratively to deliver repair and reuse solutions with the support of the Welsh Government.



## CAFFI TRWSIO CYMRU

130+ o gaffis trwsio sy'n cael eu harwain gan wirfoddolwyr. Bydd gwirfoddolwyr yn y caffis yn trwsio eitemau'r cartref, yn meithrin sgiliau, yn arbed arian ac yn lleihau gwastraff.

Trwsio 27,737 o eitemau
Arbed 912,547.2kg o garbon
Arbed dros £1m i ddefnyddwyr

## BENTHYG CYMRU

Rhwydwaith cenedlaethol o 35+ o Lyfrgelloedd Pethau, sy'n rhoi cyfle i bobl fenthyca yn lle prynu. Mae lefelau benthyca wedi cynyddu 400% ers 2021.

21,229 o eitemau wedi'u benthyca
Arbed 252,086kg o garbon
Aelwydydd wedi arbed £528,579

## REPAIR CAFÉ WALES

130+ volunteer-led repair cafés where volunteers fix household items, building skills, saving money, and cutting waste.

27,737 items repaired
912,547.2kg carbon saved
Over £1m saved for users

## BENTHYG CYMRU

National network of 35+ Libraries of Things, enabling people to borrow instead of buy. Borrowing increased 400% since 2021.

21,229 items borrowed
252,086 kg carbon saved
£528,579 saved by households



| yn agored i brynu eitemau ail-law | yn agored i logi am gyfnodau byr | yn agored i drwsio eitemau sydd wedi torri | yn ystyried defnyddio caffi trwsio |
| --- | --- | --- | --- |
| **60%** | **58%** | **73%** | **44%** |
| open to purchasing pre-loved items | open to short-term leasing | open to repairing broken items | would consider using a repair café |

## MAE CYMUNEDAU LLEDLED CYMRU WRTHI'N BENTHYCA AC YN TRWSIO GYDA'I GILYDD YN BAROD

Mae'r atebion hyn ar lefel ddynol yn mynd i'r afael â methiant yr hinsawdd, costau cynyddol, ac arwahanrwydd cymdeithasol, gan gyfrannu at Newid Cyfiawn sy'n rhoi'r prif sylw i degwch a gwytnwch cymdeithasol. Mae polau piniwn yn dangos bod y cyhoedd ar draws y DU yn gryf o blaid trwsio, ailddefnyddio a'r economi gylchol, a bod pobl am ffeindio ffyrdd i wastraffu llai ac arbed arian.

Mae'r cymunedau'n barod, ond mae angen gosod seilwaith ar gyfer hyn. Mae'r gwaith o natur fregus ac yn cael ei gynnal gan wirfoddolwyr. Does dim digon o arian ar ei gyfer, ac mae'r ddarpariaeth yn anghyson rhwng y naill ardal a'r llall. Mae Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol 2025 yn galw am sefydlu canolfan trwsio ac ailddefnyddio ym mhob tref, gan gynnwys llyfrgelloedd pethau, caffis trwsio a gorsafoedd ail-greu. Rydym yn cefnogi'r uchelgais yma, ac yn galw ar bobl i gymryd camau beiddgar fel mai rhannu a thrwsio yw'r norm.

## COMMUNITIES ACROSS WALES ARE ALREADY BORROWING AND REPAIRING TOGETHER

These human-scale solutions tackle climate breakdown, rising costs, and social disconnection, while contributing to a Just Transition that places fairness and community resilience at the heart of change. Polling shows strong public support across the UK for repair, reuse and the circular economy, with people wanting solutions that cut waste and save money.

Communities are ready, but we need infrastructure in place. This work is fragile, volunteer-run, underfunded and unevenly distributed. The Future Generations Report 2025 calls for a repair and reuse hub in every town, including libraries of things, repair cafés, and remakeries. We support that aspiration and call for bold action to make sharing and repairing the norm.

# BETH RYDYN NI EI EISIAU

### Cydnabyddiaeth

Rhoi arian i bartneriaid cymorth a chyflawni'r rhwydwaith – eu trin fel gwasanaethau craidd ar gyfer gwytnwch, llesiant, yr hinsawdd a thegwch.

### Normaleiddio

Tynnu sylw at yr achos drwy gynnal ymgyrch gyffrous i ddangos i'r cyhoedd fod benthyca a thrwsio yn hawdd ac yn ddymunol.

### Gwreiddio

Cynnwys benthyca a thrwsio mewn cynlluniau datblygu ac wrth gaffael. Buddsoddi mewn platfformau a systemau.

**Mae cyllid cynaliadwy dros sawl blwyddyn i gaffis trwsio a Llyfrgelloedd Pethau yn hanfodol er mwyn cadw'r caffis ar agor ar draws trefi Cymru, a chadw safle Cymru fel arweinydd yn yr Economi Gylchol.**

Drwy fuddsoddi digon ar gyfer y tymor hir, gallwn ehangu'r mentrau hyn a rhoi Cymru ar flaen y gad yn fyd-eang. Byddai'r buddsoddiad yma'n diogelu'r cynnydd sydd wedi'i wneud yn barod ac yn gwireddu potensial Cymru i arwain y byd o ran benthyca a thrwsio.

# WHAT WE'RE ASKING FOR

### Recognise

Fund the network support and delivery partners – treat them as core services for resilience, wellbeing, climate and fairness.

### Normalise

Champion the cause with a bold campaign to show the public that borrowing and mending is easy and desirable.

### Embed

Incorporate borrowing and repair into development plans and procurement. Invest in platforms, and systems.

**Sustainable, multi-year funding for repair cafés and Libraries of Things is essential to keep them running across Welsh towns maintaining Wales' position as a leader in the Circular Economy.**

With the right level of long-term investment, we can scale up these initiatives and put Wales firmly at the forefront globally. This investment would secure the progress already made and unlock Wales' potential to lead the world in borrowing and repair.

# PETHAU Y GALL Y LLYWODRAETH EU GWNEUD YN Y 100 DIWRNOD CYNTAF

### Ymrwymo a Diogelu

Diogelu rhwydweithiau cenedlaethol sydd ar waith yn barod drwy roi arian hirdymor sicr iddyn nhw.

Ymrwymo i'r Hawl i Fenthyca a Thrwsio – cydnabod ac arwain yn gyhoeddus.

### Cynllunio a Threialu

Mynd ati gyda chymunedau i greu Cynllun Seilwaith Benthyca ac Ailddefnyddio.

Comisiynu cynlluniau peilot y sector cyhoeddus mewn ysgolion a gweithleoedd.

### Ymgyrchu a Dod â Phobl Ynghyd

Dechrau ymgyrch hyderus newydd i newid ymddygiad, er mwyn ystyried benthyca a thrwsio fel uchelgais.

Cynnal bord gron genedlaethol i awdurdodau lleol, ymarferwyr ac arianwyr.

### Rhyddhau ac Uwchraddio

Archwilio ac ailddosbarthu eitemau cyhoeddus sydd dros ben - rhyddhau nwyddau defnyddadwy i'w defnyddio gan y gymuned.

Cyhoeddi cronfa trawsnewid digidol i gefnogi platfformau archebu a thechnoleg loceri.

# WHAT GOVERNMENT CAN DO IN THE FIRST 100 DAYS

### Commit and Protect

Protect national networks already in place with secure long term funding.

Commit to the Right to Borrow and Repair – public recognition and leadership.

### Plan and Pilot

Co-design a Borrowing & Reuse Infrastructure Plan with communities.

Commission public sector pilots in schools and workplaces.

### Campaign and Convene

Start a bold behaviour change campaign to make borrowing and repair aspirational.

Host a national roundtable for local authorities, practitioners, and funders.

### Unlock and Upgrade

Audit and redistribute public surplus – unlock usable goods for community use.

Announce a digital transformation fund to support booking platforms and locker tech.

# RYDYN NI'N BAROD I WEITHIO GYDA'R LLYWODRAETH, ARIANWYR A CHYMUNEDAU I WNEUD CYMRU YN ARWEINYDD BYD-EANG O RAN BENTHYCA, TRWSIO AC AILDDEFNYDDIO

Mae caffis trwsio a Llyfrgelloedd Pethau yn lleihau allyriadau ac yn arbed arian i bobl yn barod. Rhaid iddyn nhw barhau fel gwasanaethau craidd.

**Beth am adeiladu Cymru lle mae rhannu a thrwsio yn ail natur.**

Atodiadau ar gael ar gais

EGWYDDORION CYMUNEDOL | DATA YMGYNGHORI | YSGOGIADAU POLISI | ASTUDIAETHAU ACHOS

CAFFI TRWSIO CYMRU / REPAIR CAFE WALES

BENTHYG CYMRU

# WE STAND READY TO WORK WITH GOVERNMENT, FUNDERS AND COMMUNITIES TO MAKE WALES A GLOBAL LEADER IN BORROWING, REPAIR AND REUSE

Repair cafés and Libraries of Things are already reducing emissions and saving people money. They must continue as core services.

**Let's build a Wales where sharing and repairing is second nature.**

Annexes available on request

COMMUNITY PRINCIPLES | CONSULTATION DATA | POLICY LEVERS | CASE STUDIES

CAFFI TRWSIO CYMRU / REPAIR CAFE WALES

BENTHYG CYMRU